Swyddfa'r
Gwarcheidwad
Cyhoeddus

'

# Canllawiau y Gwarcheidwad Cyhoeddus

## Rhoi rhoddion


## Crynodeb

Mae'r canllawiau hwn yn cynghori dirprwyon ac atwrneiod ar sut i fynd ati i roi rhoddion ar ran y person y maent yn gweithredu ar ei ran (a elwir yn aml yn P').


© Hawlfraint y Goron

# Pwrpas a chwmpas

Mae'r canllaw hwn yn egluro'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi rhoddion a'r dull a ddefnyddir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) pan fydd dirprwyon neu atwrneiod yn mynd y tu hwnt i'w hawdurdod i roi rhoddion.

Mae'n berthnasol i bob atwrnai a benodir o dan atwrneiaeth barhaus gofrestredig (LPA) ar gyfer eiddo a materion personol neu o dan atwrneiaeth arhosol (EPA). Mae hefyd yn berthnasol i ddirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod i reoli eiddo a materion ariannol rhywun sydd heb allu i wneud penderfyniadau.

Gall Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) ddiwygio'r canllawiau hyn ar unrhyw adeg, yn enwedig i aros yn unol â dyfarniadau newydd y Llys Gwarchod.

# Egwyddorion rhoi

I ddirprwy neu atwrnai, rhodd yw pan fyddwch yn newid perchnogaeth ar arian, eiddo neu feddiannau oddi wrth y person yr ydych yn rheoli ei faterion i chi'ch hun neu i bobl eraill, heb daliad llawn yn gyfnewid.

Mae penderfynu a ddylid rhoi rhodd yn rhan bwysig o fod yn ddirprwy neu'n atwrnai. Gall rhoddion helpu i gyfleu dymuniadau a theimladau'r person. Gallant hefyd helpu i gadw'r berthynas â theulu a ffrindiau'r person yr ydych yn helpu i ofalu amdano/amdani.

Fodd bynnag, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r rheolau llym ynghylch rhoi rhoddion. Fel dirprwy neu atwrnai mae gennych bwerau cyfyngedig i roi rhoddion ar ran y person ac efallai y bydd angen i chi geisio awdurdod y Llys Gwarchod pan fyddwch chi'n gwneud hynny. Mae hyn oherwydd bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA neu 'y Ddeddf') yn caniatáu i chi roi rhodd mewn rhai amgylchiadau yn unig. Gall atwrneiod a dirprwyon roi rhoddion achlysurol o symiau bach ar adegau arferol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r person. Rhaid i roddion fod yn rhesymol, yn fforddiadwy ac er lles y person.

Mae gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Arhosol a dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod ddyletswyddau eithaf tebyg wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhoi rhodd o dan naill ai'r Ddeddf neu eu gorchymyn dirprwyaeth, neu'r ddau. Mae gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan EPA ddyletswyddau tebyg ond nid yr un fath. Rhaid i atwrneiod hefyd ddilyn telerau (cyfarwyddiadau) yr EPA neu'r LPA penodol y maent yn gweithredu oddi tanynt.

Cyn rhoi rhodd, rhaid i chi ystyried a yw'r person:

- yn meddu ar alluedd meddyliol i ddeall y penderfyniad i roi rhodd
- yn gallu cymryd rhan yn y penderfyniad

Nid oes un dull ar gyfer roi rhoddion. Mae'n rhaid i atwrneiod a dirprwyon wneud pob penderfyniad gan ystyried ei gyd-destun a'i amseriad ei hun. Yn yr un modd â phob penderfyniad y mae dirprwy neu atwrnai yn ei wneud, y prif ystyriaeth yw - a yw er lles pennaf y person.

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi weithredu er lles y person. Byddwch yn ystyried eu lles pennaf ar bob achlysur, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol. Yn benodol, rhaid i chi ddilyn y camau a amlinellir yn adran 4 y Ddeddf.

# Y gallu i wneud penderfyniad ynghylch rhoi rhodd

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar roi rhodd, rhaid i chi geisio canfod a oes gan y person y galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad ei hun. Os oes gan y person alluedd i roi rhodd, yna fel arfer dylai roi'r rhodd ei hun, yn hytrach na dweud wrthych am wneud y penderfyniad ar ei ran.

Mae hyn oherwydd:

- fel dirprwy, mae eich awdurdod wedi'i gyfyngu'n llwyr i wneud penderfyniadau nad oes gan y person alluedd i'w gwneud
- fel atwrnai, rydych wedi'ch cyfyngu gan y terfynau cyfreithiol ar eich awdurdod ynghylch rhoi rhoddion, hyd yn oed os yw'n ymddangos bod gan y person alluedd a'i fod wedi eich cyfarwyddo i roi rhodd ar ei ran

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi sut i asesu galluedd, sy'n broses â sawl cam iddi. I gael y gallu i wneud penderfyniad, mae adran 3 y Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i'r person allu:

- deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- cofio'r wybodaeth honno (ei chadw yn eu meddwl)
- pwyso a mesur neu ddefnyddio'r wybodaeth honno
- cyfleu eu penderfyniad

Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn a allai ddigwydd os ydynt yn gwneud y penderfyniad neu os na fyddant yn gwneud y penderfyniad.

Mae galluedd meddyliol yn benodol i benderfyniad. Mae hyn yn golygu y gall rhywun sydd â'r galluedd i wneud un penderfyniad fod heb allu i wneud penderfyniad arall.

Os ydych yn ystyried bod gan y person alluedd i wneud penderfyniad ynghylch rhoi rhodd, dylech gadw cofnod o'r camau a gymerwyd gennych i sicrhau bod y galluedd hwnnw ganddynt. Gall y Gwarcheidwad Cyhoeddus ofyn i chi ar unrhyw adeg i egluro eich penderfyniad, neu gallai eraill eich herio yn ddiweddarach.

Hyd yn oed os yw'n ymddangos bod gan y person alluedd i roi rhodd, rhaid i chi barhau i fod yn ofalus a phwyllog pan fydd yn mynegi awydd i roi rhodd. Os yw'n ymwneud â rhodd sylweddol, efallai y bydd angen i chi geisio cyngor cyfreithiol annibynnol neu drefnu asesiad galluedd meddyliol, neu'r ddau.

Gall barn feddygol am allu'r person fod o gymorth pan fyddwch chi neu eraill yn ansicr.

Gallwch ddod o hyd i ragor o ganllawiau ar asesu gallu ym mhennod 4 Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

# Cynnwys y person yn y penderfyniad

Os yw adran 12 y Ddeddf yn caniatáu rhoi rhodd (gweler 'Eithriadau: Yr hyn y gellir ei roi fel rhodd'), rhaid i'r dirprwy neu'r atwrnai gynnwys y person yn y penderfyniad. Os nad oes gan y person y galluedd i benderfynu ynghylch rhodd, rhaid i chi barhau i naill ai ymgynghori ag ef neu ei annog i gyfranogi mewn penderfyniadau – neu'r ddau – fel ffordd o ganfod ei ddymuniadau neu ei deimladau am y rhodd.

Hyd yn oed os nad oes gan y person y galluedd i wneud y penderfyniad, efallai y bydd ganddo farn yn ei gylch a bod yn well ganddo un dewis yn hytrach nag un arall. Gall eu cynnwys helpu i ganfod beth sydd er y lles pennaf iddynt.

Fodd bynnag, gall fod yn rhesymol rhoi llai o bwys ar ddymuniadau a theimladau'r person os nad yw gwneud hynny er eu lles pennaf. Mae'r cyfan yn dibynnu ar y penderfyniad dan sylw.

Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn manylu ym mharagraffau 5.23-5.24 ynghylch sut i gynnwys rhywun heb alluedd wrth wneud penderfyniadau.

# Yr hyn na ellir ei roi fel rhodd

Mae'r gyfraith yn dweud na ddylech roi rhoddion o ystâd y person (eu heiddo a'u harian), oni bai eu bod yn cael eu caniatáu gan adran 12(2) y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Dim ond y Llys Gwarchod all awdurdodi taliadau sydd y tu allan i adran 12 y Ddeddf. Mae rhai enghreifftiau lle mae'n debygol y bydd angen cais llys yn cynnwys:

- gwneud benthyciad o gronfeydd y person
- rhoi rhodd fawr
- creu ymddiriedolaeth o eiddo'r person
- byw heb dalu rhent mewn eiddo y mae'r person yn berchen arno
- gwerthu eiddo am lai na'i werth neu ei drosglwyddo i enw rhywun arall
- newid ewyllys rhywun sydd wedi marw trwy ddefnyddio gweithred amrywio i ailgyfeirio neu ailddosbarthu cyfran y person yn yr ystâd
- cynnal rhywun heblaw'r person, megis talu am ffioedd ysgol (gweler 'Darparu ar gyfer anghenion eraill')
- dileu asedau arian parod sy'n lleihau maint ystâd y person

Os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw un o'r uchod, dylech wneud cais i'r Llys Gwarchod yn gyntaf. Mae ganddo'r pŵer i naill ai gymeradwyo neu wrthod eich cais.

© Hawlfraint y Goron 

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n well i aelod o'r teulu ddarparu gofal i'r person. Os nad yw'r llys wedi awdurdodi taliadau o ystâd y person ar gyfer y gofal hwnnw, gall y taliadau hynny hefyd gyfrif fel rhodd anawdurdodedig.

Am ragor o wybodaeth, gweler Nodyn ymarfer Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar daliadau gofal teulu.

# Eithriadau: Yr hyn y gellir ei roi fel rhodd

Mae'r rheol gyffredinol ar gyfer dirprwyon ac atwrneiod ynghylch rhoi rhoddion yn syml: ar wahân i rai eithriadau, mae'r gyfraith yn dweud na ddylech roi rhoddion o ystâd y person. Os yw atwrnai neu ddirprwy am roi rhodd sydd y tu allan i'r cyfyngiadau yn y gyfraith neu yn yr LPA neu EPA neu orchymyn dirprwyaeth, rhaid iddynt wneud cais i'r Llys Gwarchod am gymeradwyaeth.

Ar gyfer atwrneiod sy'n gweithredu o dan LPA eiddo a materion ariannol cofrestredig, mae'r eithriadau hyn wedi'u nodi yn adran 12(2) y Ddeddf. I gyfrif fel eithriad, rhaid i'r rhodd fodloni pob un o'r tri phwynt isod. Rhaid iddo fod yn:

1. rhywbeth a roddir ar achlysur arferol ar gyfer gwneud rhoddion o fewn teuluoedd neu ymhlith ffrindiau a chymdeithion (er enghraifft, genedigaethau, penblwyddi, priodasau neu bartneriaethau sifil, y Nadolig, Eid, Diwali, Hanukkah a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd)
2. yn cael ei roi i rywun sy'n perthyn neu'n gysylltiedig â'r person neu (os nad yw'n berson) i elusen y mae'r person wedi'i chefnogi neu y gallai fod wedi'i chefnogi
3. o werth rhesymol, gan ystyried yr amgylchiadau ym mhob achos ac, yn benodol, maint ystâd y person

Ar gyfer atwrneiod sy'n gweithredu o dan Atwrneiaeth Barhaus, mae'r eithriadau wedi'u nodi ym mharagraff 3(3) atodlen 4 y Ddeddf. Maent yn debyg i'r eithriadau ar gyfer LPA ond ychydig yn fwy cyfyngedig o ran yr hyn y maent yn ei ganiatáu. Ar gyfer atwrneiod EPA, rhaid i rodd dderbyniol fodloni pob un o'r tri phwynt isod. Rhaid iddo fod yn:

1. rhodd o natur dymhorol (er enghraifft, anrheg Nadolig) neu ar ben-blwydd, genedigaeth, priodas neu bartneriaeth sifil
2. un a roddir i rywun (gan gynnwys yr atwrnai) sy'n perthyn neu'n gysylltiedig â'r person neu elusen y mae'r person wedi ei chefnogi neu y gallai fod wedi'i chefnogi
3. o werth nad yw'n afresymol, gan ystyried yr holl amgylchiadau ac, yn benodol, maint ystâd y person

Mae'r cyfyngiadau ar roddion hefyd yn berthnasol i roddion a wneir gan atwrneiod sy'n gweithredu o dan Atwrneiaethau Parhaus anghofrestredig, os yw'r person yn dal i fod â galluedd i wneud penderfyniadau a'i fod wedi cytuno i'r atwrnai ddefnyddio'r EPA. Byddech yn torri eich awdurdod pe baech yn gweithredu yn groes i ddymuniadau rhoddwr â galluedd meddyliol.

Rhaid i atwrneiod hefyd ddilyn unrhyw gyfyngiadau neu amodau a nodir yn yr EPA neu'r LPA ynghylch rhoddion. Sylwch mai dim ond cyfyngu ar y pwerau y mae'r gyfraith yn eu rhoi i atwrneiod y gall y person a wnaeth yr EPA neu'r LPA ei wneud - ni all y person ehangu'r pwerau hynny.

Ar gyfer dirprwyon a benodir gan y llys, mae'r pŵer i roi rhoddion wedi'i ddatgan yn eu gorchymyn dirprwy. Mae hyn fel arfer yn debyg i awdurdod statudol (cyfreithiol) atwrnai. Mae mwyafrif y gorchmynion llys yn cynnwys 'awdurdod cyffredinol' sydd fel arfer yn adran 2 y gorchymyn, er bod rhai gorchmynion yn rhoi awdurdod penodol.

Mae awdurdod cyffredinol dirprwy i roi rhoddion yn debyg iawn i adran 12 y Ddeddf, gan y gallant:

1. roi rhoddion ar achlysuron arferol i bobl sy'n perthyn i'r person neu'n gysylltiedig ag ef ar yr amod nad yw gwerth y rhodd yn afresymol o ystyried yr holl amgylchiadau ac, yn benodol, maint yr ystâd
2. rhoi rhoddion i elusennau y gallai'r person fod wedi'u cefnogi, ar yr amod nad yw'r rhodd yn afresymol o ystyried yr holl amgylchiadau ac, yn arbennig, maint yr ystâd

Nid oes yn rhaid i chi roi unrhyw rodd a rhaid i chi beidio â gadael i eraill roi pwysau arnoch i'w rhoi. Gall atwrneiod a dirprwyon dderbyn rhoddion, ond dim ond pan fydd adran 12(2) y Ddeddf yn caniatáu hynny.

# Beth yw rhodd resymol?

Nid yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn diffinio rhodd 'resymol' neu 'afresymol' pan ddaw i asesu a yw rhodd arfaethedig o fewn awdurdod atwrnai neu ddirprwy i'w rhoi. Disgwylir i chi benderfynu faint sy'n rhesymol. Ni all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus roi ffigurau nac arweiniad manwl. Os ydych yn pryderu nad yw'r rhodd o fewn eich awdurdod i'w rhoi, rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod.

Er mwyn canfod a yw rhodd yn rhesymol ai peidio, rhaid i chi ystyried:

- effaith y rhodd ar sefyllfa ariannol y person. Rhaid i chi ystyried nid yn unig eu hincwm, asedau, cyfalaf a chynilion nawr ac yn y dyfodol, ond hefyd eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol. Ystyriwch a yw eu hincwm yn cwmpasu eu gwariant arferol ac a fydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol – ac a fyddai'r rhodd yn effeithio ar hynny
- a fyddai rhoi y rhodd er lles pennaf y person
- anghenion y person yn awr ac yn y dyfodol, megis gofal llawn amser

Nid yw penderfyniad ynghylch lles pennaf yr un peth â gofyn beth fyddai'r person yn ei benderfynu pe bai ganddo alluedd. Mae'n rhaid i chi feddwl am:

- a oedd y person yn arfer rhoi rhoddion neu fenthyciadau o faint penodol cyn iddo golli galluedd
- disgwyliad oes y person
- y posibilrwydd y bydd yn rhaid i'r person dalu costau gofal neu ffioedd cartref gofal yn y dyfodol (er enghraifft, a fydd ei hawl i gyllid gofal parhaus y GIG yn cael ei adolygu ac a allai gael ei ddileu os yw ei gyflwr yn debygol o wella – gweler 'Amddifadu o asedau ')
- swm y rhodd – dylai fod yn fforddiadwy a dim mwy nag a fyddai'n arferol ar achlysur arferol neu ar gyfer rhodd elusennol
- i ba raddau y gallai unrhyw roddion ymyrryd ag etifeddiaeth ystâd y person o dan ei ewyllys, neu heb ewyllys os oes rhaid creu un
- effaith treth etifeddiant yn dilyn marwolaeth y person
- y berthynas rhwng y person y mae'r LPA, EPA neu orchymyn dirprwyaeth wedi'i drefnu ar ei gyfer a'r person y mae'r rhodd ar ei gyfer
- unrhyw gofnod o ddymuniadau a theimladau'r person megis ewyllys neu ddymuniadau a chyfarwyddiadau a fynegir yn ei LPA

Nid yw hon yn rhestr gyflawn – efallai y bydd pethau eraill i'w hystyried sy'n berthnasol i amgylchiadau penodol y person.

## Ar gyfer pwy mae'r rhoddion?

Wrth benderfynu a yw rhoddion yn rhesymol, dylech hefyd ystyried:

- a ydych yn trin aelodau o'r teulu yn gyfartal – os nad ydych, a oes rheswm da?
- a ydych yn manteisio ar eich sefyllfa trwy roi rhoddion i chi'ch hun neu'ch teulu yn unig ac nid ydych chi'n ystyried rhoi rhoddion i eraill
- a yw rhodd arfaethedig ar gyfer rhywun nad yw'n berthynas i'r person neu â chysylltiad agos ag ef – os nad yw, gall y rhodd fod y tu hwnt i'ch awdurdod oni bai ei fod i elusen y gallai'r person fod wedi rhoi rhoddion iddi
- a yw'r person wedi rhoi rhoddion i rywun cyn iddo golli galluedd, ac felly a fyddai'n rhesymol rhoi rhoddion iddynt yn awr?

Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn ystyried derbyn rhodd i chi'ch hun o ystâd y person. Gweler 'Rhoi rhodd i chi'ch hun'.

## Dymuniadau a theimladau

Mae'r rhain yn fynegiadau ysgrifenedig o ddymuniadau'r person, sydd fel arfer wedi'u cynnwys mewn LPA, ewyllys neu ddatganiad arall o fwriad. Rhaid ystyried unrhyw ddymuniadau a theimladau hysbys fel rhan o unrhyw benderfyniadau ynghylch lles pennaf, a gallant helpu i benderfynu a yw rhodd yn debygol o fod yn rhesymol. Fodd bynnag, mae gwneud penderfyniad

ynghylch lles pennaf yn fwy na dim ond gwneud yr hyn y byddai'r person wedi'i wneud ei hun pan oedd ganddo alluedd meddyliol.

Os yw'r person wedi cofnodi mynegiant o ddymuniad i'w arian gael ei ddefnyddio mewn ffordd arbennig, dylai'r atwrnai neu'r dirprwy ystyried y dymuniadau hynny wrth wneud penderfyniadau ar ei ran. Fodd bynnag, rhaid i'r atwrnai neu'r dirprwy bob amser weithredu er lles pennaf y person a rhaid iddo bwyso a mesur dymuniadau a theimladau yn erbyn yr holl amgylchiadau perthnasol eraill megis fforddiadwyedd a rhesymoldeb. Mae'n bosibl y byddwch yn penderfynu na ellir cyflawni dymuniadau'r person er mwyn diogelu ei les.

## Dewisiadau a chyfarwyddiadau

Mae Atwrneiaethau Arhosol ac Atwrneiaethau Parhaus yn caniatáu i'r sawl sy'n eu gwneud fynegi dewisiadau a chyfarwyddiadau penodol, y cyfeirir atynt hefyd fel amodau a chyfyngiadau, ynghylch sut y dylai eu hatwrneiod weithredu. Dylai atwrneiod bob amser ddarllen dewisiadau a chyfarwyddiadau yng nghyd-destun Deddf Galluoedd Meddyliol 2005 wrth ystyried penderfyniadau ynghylch rhoi rhoddion.

Mae dewisiadau yn gofnod ysgrifenedig o ddymuniadau a theimladau i atwrneiod LPA eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau er lles pennaf. Gelwir dewisiadau yn amodau mewn EPA.

Camau y mae'n rhaid i atwrneiod LPA eu cyflawni fel rhan o'u cyfrifoldebau i'r person yw cyfarwyddiadau. Gelwir cyfarwyddiadau yn gyfyngiadau mewn EPA.

Yn achos Par: Amrywiol Atwrneiaeth Arhosol [2019] EWCOP 40 dywedodd y Barnwr Hilder na all 'rhoddwr' LPA gynnwys cyfarwyddyd sy'n awdurdodi rhodd na fyddai'n cael ei chaniatáu o dan y cyfyngiadau yn adran 12 Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r atwrnai wneud penderfyniadau sydd er y lles pennaf i'r rhoddwr a gallai cyfarwyddiadau o'r fath eu hatal rhag gwneud hynny.

Fodd bynnag, os yw'r rhoddwr am fynegi dymuniad i'r atwrnai ddefnyddio ei arian er budd rhywun arall, gellir cynnwys hyn fel dewis. Mae hyn yn caniatáu i'r atwrnai ystyried y dewis fel rhan o benderfyniad ynghylch lles pennaf, ond nid oes rheidrwydd arnynt i'w ddilyn.

## Ewyllys y person

Gallwch ystyried cynnwys ewyllys person wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhoddion, gan ei fod yn arwydd o ddymuniadau'r person.

Fodd bynnag, nid yw ystyried yr ewyllys yn golygu y gallwch roi asedau'r person yn rhodd yn y ffordd y mae'r ewyllys yn ei nodi yn ystod ei oes.

Rhaid i'r atwrnai neu'r dirprwy bob amser weithredu er lles pennaf y person a rhaid iddo bwyso a mesur dymuniadau yn erbyn yr holl amgylchiadau perthnasol eraill megis fforddiadwyedd a rhesymoldeb.

Mae gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas Ymarferwyr Ymddiriedolaethau ac Ystadau arweiniad ar pryd y gall cyfreithiwr ddatgelu copi o ewyllys cleient.

# Darparu ar gyfer anghenion eraill

Mae gwahaniaeth rhwng yr hyn a ystyrir yn rhodd, a swm a ddarperir i gynnal rhywun heblaw'r person. Nid yw taliad cynhaliaeth yn cael ei ystyried yn rhodd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Nid yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn dweud yn uniongyrchol y gall atwrnai LPA weithredu er budd iddo'i hun neu i bobl eraill drwy ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Fodd bynnag, mae'r Llys Gwarchod wedi cadarnhau mewn rhai achosion y gall atwrnai LPA ddarparu ar gyfer anghenion aelodau'r teulu os yw'r person dan rwymedigaeth gyfreithiol i'w cynnal – er enghraifft, yn achos gŵr neu wraig y person, partner sifil neu blentyn dibynnol. Gall hyn gynnwys yr atwrnai ei hun, os yw'n ddibynnydd. Dylech barhau i wneud cais i'r Llys Gwarchod os nad yw'n glir a oes rhwymedigaeth gyfreithiol neu os nad yw'n glir a yw taliadau'n rhesymol.

Lle nad oes gan y person a wnaeth yr LPA rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu ar gyfer anghenion y derbynnydd arfaethedig, rhaid i'r atwrnai wneud cais i'r Llys Gwarchod am awdurdodiad os yw'n dymuno cynnal rhywun heblaw nhw. Dylid gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal rhywun heblaw'r sawl a wnaeth yr LPA gan ystyried yr holl amgylchiadau gan gynnwys eu sefyllfa ariannol a'u dymuniadau a'u teimladau.

Yn achos Ceisiadau Gwahanu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Adolygiad 1) [2016] EWHC COP 10 (19 Mehefin 2017), ystyriodd y barnwr y gwahaniaeth rhwng rhodd a thaliad i ddiwallu anghenion person. Daeth i'r casgliad yn achos PG (adroddir ym mharagraffau 126-154) y gallai rhoddwr LPA yn gyfreithlon fynnu bod ei hatwrnai'n diwallu anghenion ei merch anabl o'i hystâd heb ofyn am awdurdod gan y llys, gan fod hyn yn diwallu angen yn hytrach na rhoi rhoddion.
Fodd bynnag, dywedodd y barnwr (ym mharagraff 152g):

> "Er mwyn peidio â chaniatáu ar gyfer unrhyw amheuaeth o gwbl, efallai y bydd rhoddwr darbodus [gofalus] yn dymuno gwneud y mater yn bendant [hollol glir] drwy gynnwys amod neu ddatganiad yn ei LPA ynghylch darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer anghenion personau penodedig [gofalu amdanynt yn y dyfodol]."

Barnwr Rhanbarth Eldergill

Fel arfer dim ond os yw un o'r pwyntiau hyn yn berthnasol y gallwch ddibynnu ar y ddarpariaeth hon:

- roedd y person wedi darparu ar gyfer yr anghenion hynny yn y gorffennol
- mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai'r person wedi darparu ar gyfer yr anghenion hynny

Nid yw ‘anghenion’ wedi’u diffinio yn y Ddeddf ond yn gyffredinol fe’u bwriedir i gwmpasu:

- sefyllfaoedd fel cynnal priod (gwraig neu ŵr) neu berthnasau dibynnol
- amgylchiadau eraill lle mae tystiolaeth bod y person wedi gwneud darpariaeth ariannol ar gyfer eraill am resymau penodol yn y gorffennol ac y byddai’n debygol o wneud hynny eto yn y dyfodol

Mae gan atwrneiod EPA yr awdurdod i gynnal rhywun heblaw'r sawl a wnaeth yr EPA. Mae paragraff 3(2) Atodlen 4 y Ddeddf yn caniatáu i atwrneiod EPA weithredu er budd iddynt eu hunain neu i eraill os gallai’r person fod wedi darparu ar gyfer yr anghenion hynny ei hun. Fodd bynnag, ni all yr atwrnai wneud hyn ond i'r graddau y gellid disgwyl i'r person a wnaeth yr EPA ddarparu ar gyfer 'anghenion' y person arall neu ddiwallu eu hanghenion, a dim pellach. Dylech wneud cais i’r Llys Gwarchod yn gyntaf os yw’r taliadau arfaethedig yn mynd y tu hwnt i’r hyn a ddisgwylir yn rhesymol.

Mae'n bosibl y bydd y rhan fwyaf o orchmynion dirprwy yn caniatáu i ddirprwy ofalu am 'anghenion' unrhyw un sy'n perthyn neu'n gysylltiedig â'r person. Yn yr un modd, mae paragraff 3(2) Atodlen 4 y Ddeddf yn caniatáu i atwrneiod EPA weithredu er budd iddynt eu hunain neu i eraill os gallai’r person fod wedi darparu ar gyfer yr anghenion hynny ei hun.

Dylech wneud cais i’r llys os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a allwch ddibynnu ar y ddarpariaeth hon i wneud taliadau i rywun sy’n ddibynnol yn ariannol ar y person.

# Rhoddion o eiddo

Mae unrhyw rodd neu drosglwyddo eiddo tirol (er enghraifft, tir neu dŷ) – naill ai’r eiddo cyfan neu gyfran – bron yn sicr y tu allan i’ch pwerau fel dirprwy neu atwrnai, er gwaethaf yr hyn y gallai’r person fod wedi’i ddweud pan oedd ganddo/ganddi alluedd meddyliol. I roi rhodd o'r fath, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r enillion (swm a dderbyniwyd ar ôl gwerthu) o eiddo'r person yn rhodd.

Gallwch ddewis rhoi eiddo personol neu ddodrefn o werth cymedrol neu sentimental i aelodau'r teulu - er enghraifft, wrth waredu cynnwys tŷ'r person.

Ni ddylech roi eitemau sydd o werth sylweddol, oni bai bod y Llys Gwarchod wedi awdurdodi hynny.

# Rhoi benthyciadau

Rhaid i atwrneiod a dirprwyon beidio â manteisio ar eu sefyllfa na’u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â’u dyletswyddau.

Nid oes gan atwrneiod a benodir o dan LPA neu EPA awdurdod i gymryd benthyciadau o gronfeydd y person drostynt eu hunain nac i unrhyw un arall. Nid yw'r awdurdod cyffredinol mewn gorchymyn dirprwy yn cynnwys awdurdod i gymryd benthyciadau a rhaid i ddirprwyon beidio â gwneud hynny oni bai bod ganddynt awdurdod penodol gan y Llys Gwarchod.

Rhaid i ddirprwyon ac atwrneiod wneud cais i'r Llys Gwarchod am awdurdodiad os ydynt yn dymuno cymryd benthyciad.

Bydd unrhyw fenthyciad a gymerir ar eich cyfer chi neu unrhyw un arall o gronfeydd y person heb ganiatâd yn cael ei drin fel rhodd anawdurdodedig gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Ni all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gymeradwyo benthyciadau na chynlluniau ad-dalu ac efallai y byddwn yn gofyn i chi ad-dalu'r swm ar unwaith neu eich cyfeirio at y Llys Gwarchod i'ch tynnu o'ch rôl fel atwrnai neu ddirprwy.

# Gwneud cais i'r Llys Gwarchod

Os ydych am roi rhodd nad oes gennych yr awdurdod i'w rhoi o dan eich gorchymyn dirprwy neu bŵer atwrnai, bydd angen i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod. Ni all Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gymeradwyo rhodd – dim ond y llys all wneud hynny.

Dylech aros nes i chi gael ateb gan y Llys cyn rhoi'r rhodd. Rhaid i ddirprwy neu atwrnai wneud cais i'r Llys Gwarchod yn gyntaf pan fo'n:

- creu ymddiriedolaeth o eiddo'r person
- amrywio ewyllys rhywun sydd wedi marw trwy ddefnyddio gweithred amrywio i ailgyfeirio neu ailddosbarthu cyfran y person o'r ystâd
- gwneud buddsoddiadau ym musnes y person ei hun
- gwerthu neu brynu eiddo yn is na gwerth y farchnad
- gwneud unrhyw drafodion eraill lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau'r atwrnai neu'r dirprwy ei hun a buddiannau'r person

Rhaid i atwrneiod a dirprwyon hefyd wneud cais i'r llys lle gwneir taliadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn eithriadau rhoddion y Ddeddf neu'r gorchymyn llys dirprwy. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- Lle mae atwrneiod LPA neu ddirprwyon yn gwneud y penderfyniad i gynnal rhywun heblaw'r person
- Rhoi benthyciad, gyda neu heb log, o arian y person, gan nad oes gan yr atwrnai neu ddirprwy yr awdurdod i wneud hyn
- Pan fo atwrnai neu ddirprwy yn dymuno gwneud taliad a allai gael ei ystyried yn afresymol neu nad yw er lles pennaf y person

Ni all y Llys Gwarchod roi cyngor answyddogol ynghylch a all dirprwy neu atwrnai roi rhodd. Mae'n rhaid i chi wneud cais ffurfiol i'r llys bob amser.

Lawrlwythwch ffurflenni cais y llys. Neu gallwch ffonio'r llys ar 0300 456 4600 .

© Hawlfraint y Goron 

Mae'r Llys Gwarchod yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ymarfer sy’n ychwanegu at Reolau’r Llys Gwarchod 2017.

Mae'r rheolau'n dweud beth gall y llys ei wneud.

Mae Cyfarwyddyd ymarfer 9A yn esbonio’r broses o wneud cais i’r llys i roi rhodd.

Mae Cyfarwyddyd ymarfer 9D yn nodi gweithdrefn fer ar gyfer ceisiadau arferol a syml gan ddirprwyon ac atwrneiod presennol. Mae hefyd yn rhestru sefyllfaoedd lle byddai'r weithdrefn fer hon yn briodol.

Yn y rhan fwyaf o geisiadau am awdurdod i roi rhoddion, bydd y person yr ydych yn rheoli ei gyllid yn 'ymuno fel parti' (wedi'i gynnwys yn swyddogol yn yr achos). Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol (rhywun sy'n cynrychioli pobl heb alluedd meddyliol) yn cael ei benodi i weithredu fel 'cyfaill cyfreitha' y person i wneud penderfyniadau am y cais ar ei ran.

Mwy o wybodaeth am ffrindiau cyfreitha.

Bydd y Cyfreithiwr Swyddogol yn ystyried y dystiolaeth ac yn cynnal ei ymchwiliadau ei hun i benderfynu a yw’r rhodd arfaethedig er lles pennaf y person. Gall eu hymchwiliad gynnwys trefnu i gwrdd â'r person i drafod ei farn am y rhodd.

# Yr eithriadau de minimis

Mae’r Llys Gwarchod wedi cydnabod bod sefyllfaoedd lle mae rhodd yn mynd y tu hwnt i awdurdod dirprwy neu atwrnai, ond nid i’r graddau fel bod angen gwneud cais i’r Llys. Gelwir y rhain yn aml yn 'eithriadau de minimis' a dim ond os yw ystâd y person yn werth mwy na £325,000 y maent yn berthnasol.

Ffactorau eraill i'w hystyried fyddai: disgwyliad oes y person; a yw’r rhoddion yn fforddiadwy, gan ystyried costau gofal y person, ac na fyddant yn effeithio’n andwyol (negyddol) ar eu safon gofal ac ansawdd bywyd, ac a oes unrhyw dystiolaeth y byddai’r person yn gwrthwynebu rhoi rhoddion o’r gwerth hwn ar eu rhan.
Nid yw'r eithriadau 'de minimis' yn berthnasol o dan yr amgylchiadau a nodir yn achos Y Gwarcheidwad Cyhoeddus v C [2013] EWCOP 2965 (22 Ionawr 2013). Mae'r rhain yn cynnwys:

- benthyciadau i'r atwrnai neu i aelodau o'u teulu
- buddsoddiadau ym musnes yr atwrnai ei hun
- gwerthiannau neu bryniannau is na’u gwerth
- unrhyw drafodion eraill lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau’r person a buddiannau’r atwrnai ei hun

Yn yr achos hwn, dywedodd yr Uwch Farnwr Lush y dylai atwrneiod fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac nad oedd anwybodaeth yn esgus.

Er bod Y Gwarcheidwad Cyhoeddus v C yn ddyfarniad a roddwyd mewn achos atwrneiaeth arhosol, cymhwysodd yr uwch farnwr yr un egwyddorion ag a ddefnyddiwyd yn achos MJ a JM a’r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a oedd yn ymwneud â dirprwyon.

# Rhoi rhoddion anawdurdodedig

Dylech sicrhau eich bod yn cadw arian ac eiddo'r person ar wahân i'ch rhai chi neu rai unrhyw un arall, oni bai eich bod wedi bod â chyfrifon ar y cyd ers amser maith. Cadwch gofnod o drafodion a wnewch ar eu rhan, yn enwedig os ydych yn byw gyda nhw ac yn rhannu unrhyw gostau neu filiau.

Dylech gadw cofnod o'r rhoddion ac o dan ba sefyllfa y byddwch yn eu rhoi, fel y gallwch egluro'r rhoddion os oes angen. Dylai dirprwyon gynnwys manylion rhoddion yn eu hadroddiad blynyddol y maent yn ei gyflwyno i Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

## Ymchwiliadau Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Gall Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus ymchwilio a gofyn am esboniad ynghylch unrhyw roddion neu drafodion ariannol a wnewch ar gyfer y person fel dirprwy neu atwrnai.

Mae Adran 58(1)(h) y Ddeddf a Rheoliad 41 Rheoliadau LPA, EPA a Gwarcheidwad Cyhoeddus 2007 rhoi pŵer i Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus ymchwilio i gwynion a phryderon am y ffordd y mae dirprwy neu atwrnai yn cyflawni eu dyletswyddau. Gall Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus fynnu bod y dirprwy neu’r atwrnai’n darparu gwybodaeth a dogfennau.

Os byddwch yn rhoi rhoddion sy’n mynd y tu hwnt i’ch awdurdod heb gael cymeradwyaeth y Llys Gwarchod ymlaen llaw, gall Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus:

- wneud cais i’r llys i gael eich tynnu o’ch rôl fel dirprwy neu atwrnai (ac, os yw’n briodol, gofyn i’r llys benodi dirprwy newydd)
- gwneud cais i’r llys i’ch atal dros dro o’ch rôl fel dirprwy neu atwrnai ac i rewi cyfrifon y person er mwyn eu diogelu
- gwneud cais i’r llys i fond diogelwch dirprwy (math o yswiriant) gael ei alw i mewn – byddai darparwr y bond wedyn yn ceisio ad-daliad gennych chi’n bersonol
- eich cyfarwyddo i wneud cais i’r llys am gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer y rhodd (cymeradwyaeth ar ôl i chi ei rhoi) – dim ond mewn amgylchiadau lle mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus o’r farn y byddai gan gais o’r fath siawns resymol o lwyddo y mae hyn fel arfer yn digwydd
- gofyn i chi ddychwelyd y rhoddion neu geisio dychwelyd y rhoddion a roddwyd i eraill
- cyfeirio’r mater at yr heddlu neu sefydliadau eraill sydd â phwerau cyfreithiol

Gall y llys drefnu gwrandawiad gerbron barnwr, lle bydd disgwyl i chi fynd i egluro eich gweithredoedd. Efallai y bydd y dyfarniad yn cael ei adrodd ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd eich anhysbysrwydd yn cael ei ddiddymu (sy'n golygu y gallech gael eich enwi'n gyhoeddus).

Gall dirprwy neu atwrnai newydd gael ei awdurdodi i gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i adennill yr arian a wariwyd gennych ar roddion neu'r rhoddion eu hunain.

## Rhoi rhodd i chi'ch hun

Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn ystyried derbyn rhodd i chi'ch hun o ystâd y person. Rhaid i chi beidio â manteisio ar eich sefyllfa fel dirprwy neu atwrnai er eich budd eich hun. Rhaid i ddirprwyon ac atwrneiod beidio â chaniatáu i unrhyw ddylanwadau eraill effeithio ar y ffordd y maent yn gweithredu, a dylai penderfyniadau fod o fudd i'r person bob amser.

Os byddwch yn derbyn rhodd i chi'ch hun, gall y Llys Gwarchod edrych yn ofalus i weld a oedd gan y person alluedd a gall benderfynu eich bod wedi mynd y tu hwnt i'ch awdurdod.

Yn achos PG v DH [2014] EWCOP 15 (15 Gorffennaf 2014), penderfynodd y barnwr fod y ffeithiau'n dangos nad oedd gan 'roddwr' pŵer atwrnai allu i gytuno ar fenthyciad yr oedd ei mab wedi'i gymryd yn erbyn ei heiddo.  Yn yr achos hwn, roedd benthyciad y rhoddwr yn cyfrif fel rhodd i'w mab.

Dywedodd y barnwr:

> "…hyd yn oed pe bai gan VH y gallu i roi'r rhodd, roedd yn waradwyddus [anghywir] iddo ef [yr atwrnai] ei fod wedi ei dderbyn… ac mae'n dangos, wrth wynebu gwrthdaro rhwng ei fuddiannau ef a rhai ei fam, y byddai'n rhoi ei fuddiannau ei hun yn gyntaf."
>
> Uwch Farnwr Lush

## Amddifadu o asedau

Os bydd yr awdurdod lleol yn trefnu i'r person fynd i mewn i gartref gofal yn barhaol, bydd yn asesu ei incwm, cynilion a chyfalaf (mathau eraill o gyfoeth, megis eiddo a chyfranddaliadau) i weld a ddylai gyfrannu at gost ei ofal.

Nid yw trosglwyddo ased allan o enw'r person o reidrwydd yn ei ddileu o'r asesiad hwn. Wrth asesu a yw preswylydd yn gymwys i gael cymorth, gall yr awdurdod lleol chwilio am dystiolaeth o'r hyn a elwir yn amddifadu bwriadol o gyfalaf ac asedau.

Yn achos Yule v Cyngor De Swydd Lanark [2001 SC 203; 2001 SCLR 26], roedd mam yr ymgeisydd wedi trosglwyddo ei thŷ, ei hunig ased cyfalaf (sy'n golygu eitem sylweddol o eiddo), i'w hwyres heb dâl. Ar ôl damwain 16 mis yn ddiweddarach, aeth i gartref nyrsio preswyl a gwneud cais am arian cyhoeddus ar gyfer y ffioedd llety, a wrthodwyd. Dywedodd y llys fod yr awdurdod lleol yn iawn i ddod i'r casgliad, yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ganddyn nhw, fod yna waredu cyfalaf bwriadol wedi digwydd.

Mae'r egwyddorion uchod hefyd yn berthnasol pan fydd rhywun yn defnyddio amddifadu asedau i hawlio budd-daliadau prawf modd.

© Hawlfraint y Goron 

## Dirprwyon a bondiau diogelwch

Mae'r rhan fwyaf o orchmynion dirprwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r dirprwy drefnu bond diogelwch. Mae'r bond yn fath o yswiriant sy'n diogelu ystâd y person rhag camreoli ariannol gan y dirprwy.

Os byddwch yn rhoi rhoddion anawdurdodedig o arian ac eiddo, gall y Gwarcheidwad Cyhoeddus – neu unrhyw un arall sydd â buddiant perthnasol yn yr achos – wneud cais i'r Llys Gwarchod am orchymyn yn gorfodi'r bond i wneud iawn am yr hyn a wariwyd gennych.

Os bydd y llys yn rhoi gorchymyn o'r fath, bydd y cwmni yswiriant yn ad-dalu (talu'n ôl) i'r person ond bydd yn ceisio cael yr arian yn ôl gennych chi'n bersonol fel y dirprwy neu'r cyn ddirprwy. Gall y cwmni yswiriant gymryd camau pellach yn eich erbyn mewn llys sifil i gyflawni hyn.

# Y gyfraith droseddol

Lle mae dirprwy neu atwrnai wedi gwneud taliadau mawr anawdurdodedig y maent yn honni eu bod yn rhoddion, bydd y Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ystyried gofyn i'r heddlu ymchwilio.

Mae nifer o droseddau y gallai dirprwy neu atwrnai gael eu cyhuddo ohonynt. Er enghraifft, mae twyll trwy gamddefnyddio swydd yn drosedd o dan adran 4 Ddeddf Twyll 2006. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw un sydd mewn swydd lle disgwylir iddynt ofalu am fuddiannau ariannol person arall, a pheidio â gweithredu yn eu herbyn. Mae dirprwyon ac atwrneiod yn y sefyllfa hon.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i gam-drin y sefyllfa honno'n anonest, lle rydych yn bwriadu gwneud elw i chi'ch hun neu i eraill, achosi colled i'r person neu wneud y person yn agored i risg o golled.

Darllenwch ddyfarniadau'r Llys Gwarchod ar-lein.

**Am gyngor pellach:**
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Ffôn 0300 456 0300
www.gov.uk/opg

© Hawlfraint y Goron